***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 46

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2017

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**12.** Ar ôl paragraff 44 mewnosoder—

"**Y dyddiad y cymerir i ystyriaeth incwm sy'n cynnwys enillion o gyflogaeth fel enillydd cyflogedig: personau nad ydynt yn bensiynwyr**

**44A.** Rhaid cymryd i ystyriaeth enillion wythnosol cyfartalog ceisydd o gyflogaeth wedi ei amcangyfrif yn unol â pharagraff 44 (enillion wythnosol cyfartalog enillwyr cyflogedig: personau nad ydynt yn bensiynwyr) a pharagraffau 48 a 49 (enillion enillwyr cyflogedig: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn achos cais, ar y dyddiad y gwnaed y cais neu'r dyddiad y trinnir y cais fel pe bai wedi ei wneud, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad wedi hynny, ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio;

(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo'r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod cyntaf o'r wythnos ostyngiad yn dilyn y dyddiad y mae'r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad wedi hynny, ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio; neu

(c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog o gyflogaeth y ceisydd yn newid, y diwrnod cyntaf o'r wythnos ostyngiad yn dilyn dyddiad y newid, a dechrau pob wythnos ostyngiad wedi hynny, ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio."